
 Rheoli amgylcheddol 1 T219

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Gellir ystyried rheoli amgylcheddol fel rheoli ein cydberthynas ddynol â'r amgylchedd. I bob un ohonom, mae'r gydberthynas hon o dan bwysau cynyddol. Pam bod rheoli amgylcheddol yn hanfodol ar gyfer ein cynaliadwyedd? Pa fath o reoli amgylcheddol sydd ei angen arnom nawr? Nod y modiwl hwn yw archwilio atebion systematig i'r cwestiynau hyn a chwestiynau cysylltiedig drwy gyflwyno syniadau, dulliau gweithredu a thechnegau rheoli amgylcheddol ar lefel unigol, lefel sefydliadol a lefel gymunedol. Gan gydnabod bod ein dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng pobl â'r amgylchedd yn newid, byddwch yn cyflwyno ac yn archwilio cyfleoedd ar gyfer arferion rheoli amgylcheddol arloesol a chreadigol yn seiliedig ar ddulliau gweithredu systemau.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu brofiad proffesiynol cyfatebol mewn maes sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd neu systemau
- profiad cyfredol o ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu rheoli amgylcheddol (megis asesiadau cynaliadwyedd; dadansoddi cylch bywyd; ISO14001) mewn o leiaf un cyd-destun perthnasol
- profiad o ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu a thechnegau systemau gan gynnwys methodoleg systemau meddal, technegau diagramu a dymneg systemau sylfaenol
- diddordeb mewn defnyddio syniadau a dulliau gweithredu systemau i ddatblygu cysyniadau ac arferion rheoli amgylcheddol yn gritigol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Cyflwynir T219 gan ddefnyddio deunyddiau ar-lein yn bennaf.
- Mae un o'r blociau (bloc 3) yn cynnwys rhywfaint o waith grŵp gan fyfyrwyr. Ar gyfer hyn bydd angen goruchwyliaeth tiwtor ychwanegol a chymedroli grwpiau llai.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfywrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.